**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 249 (Cy.37)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *7 Chwefror 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *8 Chwefror 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 101 a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**) ac ar ôl ymgynghori â chynrychiolwyr awdurdodau perthnasol, â chynrychiolwyr cyflogeion awdurdodau perthnasol, ac ag unrhyw bersonau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

(**1**) 2000 (p.22).